# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth

**Dydd Mercher 28 Chwefror 2017, 11.30am - 13.00pm**
Ystafelloedd seminar 1 a 2 yn y Pierhead

**COFNODION**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Simon Thomas AC (yn dirprwyo ar ran Llŷr Gruffydd AC) | Plaid Cymru – yn gweithredu fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol |
| Phil Newman (Siaradwr) | Tîm Monitro Parthau Cadwraeth Morol, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Gill Bell (Siaradwr) | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol |
| Clare Reed | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol |
| Mark Isherwood AC | Y Ceidwadwyr Cymreig |
| Ioan Bellin | Staff Simon Thomas AC |
| Catrin Davies* | Grŵp Plaid Cymru |
| Laura Murton | Staff Julie James AC |
| Camilla Beaven | Staff Jane Hutt AC |
| Thomas Pinder | Staff David Melding AC |
| Helen West | Staff Julie Morgan AC |
| Robin Lewis | Staff Vikki Howells AC |
| Byron Davies | Cangen Cadwraeth Morol, Llywodraeth Cymru |
| Ryan Evans | Swyddog Ymchwil Uwch, y Gwasanaeth Ymchwil |
| Jim Evans | Cymdeithas Pysgotwyr Cymru |
| Dr Leanne Cullen-Unsworth | Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy, Prifysgol Caerdydd |
| Ann Jones | Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy, Prifysgol Caerdydd |
| Jonathan Monk | Rheolwr Amgylcheddol, Porthladd Aberdaugleddau |
| Dan Crook | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Scott Fryer | Cyswllt Amgylchedd Cymru/Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| Roger Thomas | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Karen Whitfield | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Liz Smith | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Clare Reed | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol |
| Annie Smith | RSPB |
| Sarah Young | WWF Cymru |
| Steve Lucas | Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod |

**Y prif bwyntiau**

**Sylwadau agoriadol**

- Agorodd ST y cyfarfod, gan esbonio ei fod yn llenwi'r bwlch ar ran Llŷr Gruffydd AC (Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol a noddwr y digwyddiad), a oedd wedi cael profedigaeth deuluol, yn anffodus, felly ni allai fod yn bresennol.
- Nododd ST mai ef yw Ysgrifennydd Cabinet yr Wrthblaid ar ran Plaid Cymru ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig, sy'n cynnwys bioamrywiaeth. O ran ei etholaeth ei hun, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, tynnodd sylw, er bod 70% ohoni yn fàs tir, mae'r ardal yn cynnwys y cyfan o Fae

Ceredigion hefyd, felly mae'n cynnwys llawer o amgylchedd morol. Ychwanegodd fod hyn yn wir yn enwedig os, ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, y bydd y ffiniau morol yn cael eu hymestyn.

- Nododd fod hwn yn amser arbennig o dda i feddwl am gadwraeth forol, am gynllunio, a defnydd cynaliadwy, a thynnodd sylw at y ffaith y bydd disgwyl i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru gael ei gyhoeddi yn yr haf, a chan fod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (y mae ef yn aelod ohono) yn edrych ar gynllunio morol fel rhan o ymchwiliad ar hyn o bryd.
- Soniodd ST fod y Pwyllgor wedi cwrdd â'r Sefydliad Morol yng Ngweriniaeth Iwerddon ychydig wythnosau'n ôl, ac mae hwn yn llinyn parhaus o waith. Ychwanegodd mai'r 'cwestiwn mawr' o hyd yw Brexit, a'r posibilrwydd parhaus o wneud deddfwriaeth amgylcheddol yn ymwneud ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAs), Parthau Cadwraeth Morol (PCM) a sut y caiff hon ei datblygu o fewn deddfwriaeth y DU a Chymru.
- Yn fyr, dywedodd y gallai rheoli morol fod yn "*llanast*", a'i fod yn "*jig-so enfawr*" sy'n anodd ei lunio. Yn rhannol, roedd yn credu fod hyn oherwydd ei bod mor anodd deall o ble y daw gwarchodaeth forol; pa gamau sy'n gweithio; pa gamau nad ydynt yn gweithio. Nododd nad yw llawer o hyn yn cael ei drafod ar lefel wleidyddol ac roedd yn rhaid iddynt ddeall mwy o'r hyn a oedd yn digwydd.
- O gasglu'r dystiolaeth a oedd ar gael, nododd y byddai gwleidyddion yn gwneud eu gorau i'w ddeall ac i wneud y polisi gorau posibl yn sgîl yr hyn y maent wedi ei gasglu. Er, nododd mai un broblem yw bod tystiolaeth sylfaenol yn brin.
- Ar ôl cyflwyno'r sylwadau hyn, cyflwynodd ST y ddau siaradwr: Phil Newman (PN) fel Uwch Swyddog Cadwraeth Forol Ynys Sgomer, Cyfoeth Naturiol Cymru a Gill Bell (GB), Pennaeth y Gymdeithas Cadwraeth Forol.

**2 - '*Parthau Cadwraeth Forol Ynys Sgomer'* - Phil Newman, Cyfoeth Naturiol Cymru**

Siaradodd PN ar sut y mae'r tîm ym Mharth Cadwraeth Morol Ynys Sgomer yn cydweithio i amddiffyn bywyd gwyllt morol, yn ogystal â sicrhau bod y cyhoedd yn gyffredinol yn cael eu haddysgu arno, a bod twristiaeth yn cael effaith ddiogel a chadarnhaol ar yr ardal.

Fel yr unig Barth Cadwraeth Morol yng Nghymru, amlinellodd PN fod yr ardal wedi'i dewis gan fod ynddi amrywiaeth eang o gynefinoedd mewn un ardal fach, ac amrywiaeth cyfatebol o rywogaethau. Eglurodd fod y gweithwyr yn diogelu'r ardal, yn ogystal â gwneud gwaith ymchwil, monitro, goruchwylio, rheoli a chyd-gysylltu ag ymwelwyr. Dangosodd rai o'r rhywogaethau cynnes-ddŵr Môr y Canoldir-Iwerydd, gan gynnwys y wyntyll fôr binc a'r anemonïau trwmped melyn.

Esboniodd PN sut y caiff gwaith ymchwil ei gynnal yn gorfforol, gan ddeifwyr sy'n defnyddio dulliau nad ydynt yn dinistrio'r bywyd gwyllt, sy'n gwneud gwaith arolygu dwys a rheolaidd. Aeth ymlaen, gan amlinellu rolau rhywogaethau eraill yn yr ecosystem forol, yn ogystal â nodi'r niferoedd o forloi bach sydd wedi'u geni ers 1992 ac sydd wedi goroesi.

Cyfeiriodd PN bod modd cael rhagor o wybodaeth yn adroddiadau Parth Cadwraeth Forol Sgomer:
http://naturalresources.wales/conservation-biodiversity-and-wildlife/find-protected-areas-of-land-and-seas/skomer-marine-conservation-zone/

Mae sleidiau'r cyflwyniad ar gael ar gais gan ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol, a Chyswllt Amgylchedd Cymru, drwy anfon neges e-bost at: liz@waleslink.org .

**3 – Sesiwn Holi ac Ateb ar ôl y cyflwyniad**

- gofynnodd RT beth y mae’r cyfresi data yn yr hirdymor ar gyfer Sgomer yn eu dangos, a sut y maent yn cymharu â’r blynyddoedd blaenorol.
- Ymatebodd PN gan ddweud fod rhai rhywogaethau yn dda, yn sefydlog neu'n cynyddu ond mae eraill wedi gostwng. Mae niferoedd y morloi wedi bod yn cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r wyntyll fôr binc wedi gostwng ac, er y cafwyd 10 gwyntyll y môr newydd dros y 25 mlynedd diwethaf, gwelwyd colled o 20 ar y cyfan.
- Gofynnodd SY o ble yn bennaf y daw’r ymwelwyr i Ynys Sgomer a'r Parth Cadwraeth Morol. Nododd PN bod ymwelwyr cyffredinol â’r Ynys a deifwyr yn y Parth Cadwraeth Morol yn dod o bob cwr o'r byd.
- Gofynnodd JM sut y mae llyswennod glaswellt yn ymdopi â thymheredd cynyddol uwch oherwydd newid hinsawdd, o fewn y Parth. Nododd PN nad oedd digon o ddata ar y gydberthynas hon. Y brif broblem yn y Parth yn ymwneud â’r llyswennod glaswellt oedd difrod hanesyddol o ganlyniad i angori.

**4 - '*Cadwraeth Morol yng Nghymru'* - Gill Bell, o Gymdeithas Cadwraeth y Môr**

Rhoddodd GB adroddiad ar y prif fecanweithiau ar gyfer cadwraeth a monitro morol, gan gynnwys Ardaloedd Morol Gwarchodedig (ACMau), yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru sydd ar y gweill a’r Polisi Adnoddau Naturiol ac Asesiadau Ecosystemau Cenedlaethol.

Pwysleisiodd mai’r broblem yw peidio â chael digon o dystiolaeth morol cadarn, ond pan fydd tystiolaeth ar gael, mae'n cyfeirio at gyflwr sy’n peri gofid o ran dirywiad ein cynefinoedd morol. Nid oedd SoNaRR yn nodi unrhyw gynefin yng Nghymru a oedd â’r holl nodweddion sy'n ofynnol ar gyfer sicrhau gwydnwch.

Er bod 36% o foroedd Cymru mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig, nododd GB nad yw hyn yn golygu eu bod, o reidrwydd yn cael eu rheoli'n weithredol na’u bod yn warchodedig, oherwydd ni all dynodiad yn unig sicrhau hyn; rhaid cael yr adnoddau hefyd. Mae strategaeth dystiolaeth sydd wedi’i hariannu’n dda hefyd yn rhan annatod o hyn, ac mae’r un problemau â hyn yn bod o ran drafftio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru; nid yw adnabod problemau yn unig o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu datrys.

Gorffennodd GB ei sgwrs drwy restru pum ffordd i wella cadwraeth forol yng Nghymru. Dylid:
- Sicrhau bod safleoedd gwarchodedig yn cael eu gwarchod mewn gwirionedd, nid eu dynodi yn unig.
- Rhoi terfyn ar weithgareddau niweidiol mewn ardaloedd gwarchodedig, nes ceir tystiolaeth sy’n profi eu bod yn ddiogel.
- Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i fonitro a rheoli gweithgareddau ac o ran gorfodaeth mewn safleoedd.
- Yn ystod y cyfnod y bydd y DU yn gadael yr UE, sicrhau nad oes dim gwanhau Cyfarwyddebau'r UE ar adar, cynefinoedd neu bysgodfeydd.
- Wrth ddefnyddio adnoddau morol yn y dyfodol, dylid sicrhau eu bod yn gynaliadwy mewn gwirionedd a’u bod yn rhan o ecosystem gadarn ac iach.

Mae sleidiau'r cyflwyniad ar gael ar gais gan ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol, neu gan Cyswllt Amgylchedd Cymru, drwy e-bostio liz@waleslink.org .

**5 - Sesiwn Holi ac Ateb ar ôl y cyflwyniad**

- Gofynnodd ST sut y dylai Datganiadau Ardal (fel rhan o Ddeddf yr Amgylchedd) gynnwys yr amgylchedd morol.

- Dywedodd CR bod angen cael Datganiad ar raddfa genedlaethol, sy'n ategu'r Cynllun Morol sy'n datblygu, ond dylid hefyd sicrhau bod rhai is-ranbarthol sy'n cynnwys rhyngwyneb y môr a'r tir, ac sy'n adnabod cyfleoedd a risgiau lleol.
- Nododd RS fod pryder y gallai'r Cynllun Morol gael ei ddefnyddio fel y 'Datganiad Ardal forol'. Ni fyddai hyn yn gweithio gan na chynlluniwyd y Cynllun Morol i nodi risgiau a chyfleoedd yn yr un modd ag y bydd Datganiadau Ardal yn ei wneud.
- Wrth ymateb i gwestiwn ar Sgomer, dywedodd PN nad oes dim sicrwydd ar hyn o bryd y bydd y gwaith yn gallu parhau yn yr hirdymor pell, a byddai hyn yn effeithio ar gasglu a dibynadwyedd cyfresi data hirdymor.

**6. Trafodaeth a chwestiynau**

Fe wnaeth ST ddirwyn y sesiwn i ben, drwy ddiolch i'r cyflwynwyr a'r cyfranwyr. Cafwyd trafodaeth derfynol gyda ST.

Gofynnodd RT a oedd ganddynt ddigon o dystiolaeth i helpu Aelodau'r Cynulliad i ddeall yr hyn sydd angen ei wneud. Roedd ST o'r farn fod y mater yn dod yn fwy dealladwy ar gyfer gwneud dewisiadau tystiolaethol, a nododd fod y mater wedi cael ei drafod yn y Cynulliad. Nododd fod rheolaeth gynaliadwy yn dod yn fwy blaenllaw wrth lunio polisi cyhoeddus, ond nad oedd hyn mor wir yn y cyd-destun morol.

Parhaodd ST, drwy ddweud y gallai'r Cynllun Morol Cenedlaethol fod yn gyfle i osod y safbwynt hwn yn eglur; dywedodd y bydd angen i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig edrych ar yr holl ddata, a gweld beth sydd angen ei gynhyrchu er mwyn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Dywedodd y byddant yn gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru hefyd, o ran sicrhau bod hyn yn y Datganiadau Ardal.

Amlygodd ST adroddiad SoNaRR (a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru y llynedd). Dywedodd, o'i ddealltwriaeth wrth ddarllen y ddogfen, fod llawer ohono yn seiliedig ar ymgais "*ddyfalu orau"* Cyfoeth Naturiol Cymru*,* ac ychwanegodd fod hyn yn seiliedig ar gasgliad wyddonol resymol o ddata, ond roedd yn eithaf gwan o ran gorddibyniaeth ar gyfres gyfredol iawn o ddata, a data ar raddfa fawr.

Ychwanegodd CR, gan mai fersiwn gyntaf yw hon o adroddiad SoNaRR, ni fyddai'n "be*rffaith"* ond diwedd y gân yw bod angen rhaglen dystiolaeth strategol. Roedd ST yn cytuno, ac ychwanegodd ei fod hefyd yn fater daearol, ac amlygodd fod angen iddynt sicrhau bod SoNaRR yn llwyddiannus o ran y nodweddion y cawsant eu sefydlu ar eu sail.

Cododd RS bryderon, yn ddaearol a morol, yn syml, ni welwyd monitro safleoedd gwarchodedig ac mae hynny'n amlwg. Eglurodd, er ei fod yn gwestiwn hirdymor, roedd yn rhaid iddynt sicrhau nad oeddent yn cael cyfres o safleoedd dynodedig heb yr adnoddau i'w cynnal, i'w gwella ac i osod gorfodaeth yn eu cylch. Heb yr elfen hon, yn wir mai *darnau o bapur* yn unig yw'r 'dynodiad'. Rhoddodd enghreifftiau o rai o'r "*llu o fygythiadau "* sy'n wynebu safleoedd morol, a'r peth pwysicaf yw cyflwyno achos cryf o ran y diffyg tystiolaeth, fel bod modd mynd i'r afael â hyn yn briodol.

Atebodd ST, pan oedd Parthau Cadwraeth Morol yn cael eu cyflwyno gyntaf fel syniad, roedd rhai pethau wedi'u gwahardd, ond nad oedd llawer o dystiolaeth i gefnogi hyn. Nododd y gall fod yn anodd cael y cyhoedd a chymunedau o blaid rhai agweddau yn hynny o beth. Roedd ef o'r farn y byddai ymdrin â'r Datganiadau Morol yn faes gwaith parhaus.